GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

# Effaith Gymdeithasol ac Amgylcheddol Cynhyrchion Tybaco

Canlyniadau ehangach y tu hwnt i iechyd unigol



Iechyd Cyhoeddus Cymru

Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Yn y casgliad o sleidiau hwn byddwn yn archwilio:

**Effaith Gymdeithasol ac Amgylcheddol Cynhyrchion Tybaco**
**Yr Effeithiau Amgylcheddol**

- Sut mae gwastraff tybaco yn effeithio ar ein hamgylchedd

**Effaith Ysmygu Tybaco ar Gartrefi a Chymunedau**

- Effeithiau ysmygu ail-law
- Deddfau a pholisïau yng Nghymru

**Dylanwad Cymdeithasol ac Anghydraddoldeb**

- Pwysau gan gyfoedion, arferion teuluol a phortreadau yn y cyfryngau
- Strategaeth Rheoli Tybaco Llywodraeth Cymru

**Y Diwydiant Tybaco – Yr Hyn y Dylech Chi Ei Wybod**
**Cyfrifoldeb a Rennir**

# Yr Effeithiau Cymdeithasol ac Amgylcheddol

Nid yw defnyddio tybaco yn creu niwed i ysmygwyr unigol yn unig -mae’n cael effeithiau pellgyrhaeddol ar deuluoedd, cymunedau, yr amgylchedd a'r economi.

Mae'r effaith yn dechrau gyda sut mae tybaco yn cael ei dyfu, sy'n aml yn cynnwys datgoedwigo, defnyddio plaladdwyr ac amodau llafur gwael dramor. Mae yna’n parhau gyda'r gwastraff mae’n ei greu, gan gynnwys bonion sigaréts sy'n llygru strydoedd, afonydd ac ardaloedd arfordirol.

Yng Nghymru, mae lleihau'r defnydd o dybaco yn cyfrannu at aer glanach, cymunedau iachach, llai o anghydraddoldebau iechyd ac amgylchedd mwy cynaliadwy, gan gefnogi nodau cenedlaethol o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



# Yr Effeithiau Amgylcheddol

Mae'r rhan fwyaf o'r tybaco a ddefnyddir yng nghynhyrchion y DU yn cael ei dyfu dramor, yn aml mewn rhanbarthau lle mae ffermio'n arwain at:

- **datgoedwigo**
- **difrod i bridd**
- **llygredd o blaladdwyr**

Yng Nghymru, bonion sigaréts yw un o'r mathau mwyaf cyffredin o sbwriel, gan lygru traethau, strydoedd a dyfrffyrdd. Mae'r bonion hyn wedi'u gwneud o blastig nad yw'n fioddiraddadwy a all gymryd blynyddoedd i bydru ac sy'n rhyddhau tocsinau sy'n niweidiol i fywyd gwyllt.

Mae lleihau gwastraff tybaco yn cefnogi **strategaethau Aer Glân a Dim Gwastraff Cymru**, gan helpu i amddiffyn y tir, cynefinoedd naturiol ac amgylcheddau arfordirol.



Ffynhonnell: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/tuag-at-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff.pdf

# Effaith ar Gartrefi a Chymunedau

Mae ysmygu yn effeithio ar fwy na'r defnyddiwr yn unig. Mae mwg ail-law yn golygu bod pobl nad ydynt yn ysmygu yn dod i gysylltiad â chemegau niweidiol, gan gynyddu'r risg o bethau fel:

- **Clefyd y galon**
- **Asthma**
- **Salwch anadlol**



Mae plant yn arbennig o agored i niwed, ac mae dod i gysylltiad yn gysylltiedig â heintiau ar y frest, problemau â'r clustiau, anawsterau anadlu a phyliau o asthma.

Yng Nghymru, mae'n anghyfreithlon i ysmygu mewn ceir sy'n cludo unrhyw un o dan 18 oed, neu ar dir ysbytai, safleoedd ysgolion a blynyddoedd cynnar a meysydd chwarae. Hyd yn oed ar ôl ysmygu, mae mwg trydydd llaw yn glynu wrth ddillad, dodrefn meddal, carpedi a waliau, sy'n golygu bod eraill yn parhau i ddod mewn cysylltiad â chemegau niweidiol.

Gall defnyddio tybaco hefyd roi pwysau ar gyllidebau aelwydydd oherwydd y gost uchel yn gysylltiedig ag ef, a gall gyfrannu at anghydraddoldebau iechyd mewn cymunedau mwy difreintiedig.


# Dylanwad Cymdeithasol ac Anghydraddoldeb

Mae ffactorau cymdeithasol yn chwarae rhan gref yn y defnydd o dybaco. Mae pwysau gan gyfoedion, arferion teuluol a'r cyfryngau yn dylanwadu p’un ai a yw pobl ifanc yn dechrau ysmygu neu ddefnyddio tybaco a chynhyrchion nicotin eraill ai peidio.

Yng Nghymru, mae cyfraddau ysmygu yn parhau i fod ar eu huchaf mewn ardaloedd difreintiedig ac ymhlith pobl sy'n wynebu straen ariannol, heriau iechyd meddwl neu salwch hirdymor.

Nod **Strategaeth Rheoli Tybaco (2022–2032) Llywodraeth Cymru** yw creu Cymru ddi-fwg erbyn 2030, gan ganolbwyntio ar leihau anghydraddoldebau a chefnogi pobl i roi'r gorau iddi.

Mae ymgyrchoedd iechyd y cyhoedd fel y rhai a gynhelir gan **Helpa Fi i Stopio** ac ASH Cymru wedi helpu i wneud ysmygu yn llai derbyniol yn gymdeithasol ac wedi codi ymwybyddiaeth o'i effeithiau ehangach.



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Y Diwydiant Tybaco:
# Yr Hyn y Dylech Chi Ei Wybod

Mae gan gwmnïau tybaco hanes hir o gamarwain y cyhoedd ynghylch peryglon ysmygu er mwyn amddiffyn eu helw.

- Maent yn parhau i ddefnyddio ymgyrchoedd marchnata, hyrwyddiadau, lobïo ac achosion cyfreithiol i ohirio neu wanhau deddfau iechyd ledled y byd.
- Yn aml, caiff pobl ifanc a chymunedau difreintiedig eu targedu'n fwriadol, gan fod angen cwsmeriaid newydd ar y diwydiant i gymryd lle'r rhai sy'n rhoi'r gorau iddi neu sy'n mynd yn sâl.
- Mae cynhyrchion tybaco - gan gynnwys eitemau mwy newydd fel bagiau bach neu dybaco wedi'i gynhesu - wedi'u cynllunio i fod yn gaethiwus, gan gadw pobl yn eu prynu.
- Mae'r diwydiant hefyd yn achosi niwed amgylcheddol sylweddol, o ddatgoedwigo a llygredd i biliynau o fonion sigaréts yn llygru tir a dŵr.

**Mae deall y tactegau hyn yn ein helpu i weld nad yw niwed tybaco yn ymwneud â dewisiadau unigol yn unig - mae hefyd wedi'i lywio gan ddylanwad pwerus y diwydiant.**

# Cyfrifoldeb a Rennir



Mae defnyddio tybaco yn effeithio ar:

- **Iechyd**
- **Cymdeithas**
- **Yr amgylchedd**
- **Cenedlaethau'r dyfodol**

Mae lleihau cyfraddau ysmygu ac atal pobl rhag dechrau ysmygu yn helpu Cymru i symud tuag at ddyfodol glanach, tecach ac iachach, gan gefnogi nodau llesiant cenedlaethol.

Mae gan bawb rôl i'w chwarae - teuluoedd, ysgolion, cymunedau a llunwyr polisi - wrth greu **Cymru ddi-fwg**, gan amddiffyn pobl a'r blaned.

# Crynodeb

Mae defnyddio tybaco yn effeithio ar fwy nag iechyd personol - mae'n effeithio ar yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas. O arferion ffermio byd-eang i sbwriel lleol a llesiant cymunedol, mae'r canlyniadau'n bellgyrhaeddol.

Mae uchelgais Cymru i fod yn ddi-fwg yn adlewyrchu mudiad cynyddol i greu dyfodol glanach, tecach ac iachach i bawb.



Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# Cyfeiriadau

Mae'r wybodaeth wedi'i darparu yn y casgliad o sleidiau hwn yn defnyddio'r ffynonellau canlynol:


Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | LLYW.CYMRU
https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents
The environmental and health impacts of tobacco agriculture, cigarette manufacture and consumption – PMC
https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/tuag-at-ddyfodol-diwastraff-ein-strategaeth-wastraff.pdf
Health Problems Caused by Secondhand Smoke | Smoking and Tobacco Use | CDC
Cymru Ddi-fwg: Strategaeth hirdymor Cymru ar gyfer rheoli tybaco [HTML] | LLYW.CYMRU
https://rhwydwaithiechydcyhoeddus.cymru/uchelgais-i-gael-cymru-ddi-fwg-erbyn-2030-gyda-smygun-parhau-i-fod-yn-brif-achos-marwolaethau-cyn-pryd/
Stopping Tobacco Organizations and Products (STOP)